Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed

Trosolwg

Cân symud sy'n seiliedig ar fyd natur, sy'n hybu sylwi, cyffwrdd, arogli, gwrando a dychmygu.



Gweithgareddau

Mae'r staff i gyd yn canu'r gân draddodiadol "Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed".
Yna, mae un person yn disodli pob un o rannau'r corff â gorchymyn sy'n seiliedig ar fyd natur:

Pen – edrychwch i fyny!

Ysgwyddau – cyffyrddwch yn ysgafn â rhywbeth naturiol sydd gerllaw.

Coesau – penliniwch a sylwch.

Traed – defnyddiwch fysedd eich traed i dapio gwahanol arwynebau.

Offer

- Cyrff
- Lleisiau
- Man awyr agored

Cwestiynau allweddol

Beth y gwnaethoch sylwi arno uwch eich pen, o'ch cwmpas a danoch?
A wnaethoch sylwi ar unrhyw beth newydd / gwahanol?

Deilliannau dysgu

Defnyddio rhythm a symudiadau i archwilio'r man chwarae.
Datblygu cyfathrebu ieithyddol drwy ganu – gwrando, ailadrodd, dilyn

Symud y dysgu yn ei flaen

- Dewch o hyd i rywbeth sydd: Pen – yn symud, Ysgwyddau – yn arw, Coesau – yn fach iawn, Traed – yn gwneud sŵn pan fydd yn cael ei dapio.
- Parhewch â'r gân a'r symudiadau gan ddefnyddio'r synhwyrau – y llygaid, y clustiau, y geg, y trwyn.